LC1160

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Tryptoffan mewn Bwyd (Cymru) 2005

Mae'r Rheoliadau hyn yn cydgrynhoi gyda diwygiadau Reoliadau Tryptoffan mewn Bwyd 1990 ("Rheoliadau 1990"). Mae'r Rheoliadau yn parhau i wahardd defnyddio tryptoffan mewn bwyd, ynghyd â gwerthu bwydydd sy'n cynnwys tryptoffan. Fodd bynnag, maent yn cyflwyno eithriad newydd rhag y gwaharddiadau mewn perthynas â tryptoffan chwithdroadol fel ategolyn deietegol, gyda meini prawf llym o ran purdeb a dogn dyddiol. Caiff Rheoliadau 1990 eu dirymu.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i'w adrodd o dan Reol Sefydlog 11.7.

Deellir mai bwriad rheoliad 3 yw cyflwyno'r rhagdybiaeth a ganlyn: os canfyddir bod unrhyw fwyd yn mynd yn groes i ofynion y Rheoliadau a'i fod yn rhan o swp, lot neu lwyth o fwyd o'r un dosbarth neu ddisgrifiad, yna rhagdybir, hyd nes y profir i'r gwrthwyneb, fod yr holl fwyd yn y swp, lot neu lwyth hwnnw yn mynd yn groes i ofynion y Rheoliadau. Mynegir y bwriad hwnnw yn y testun Saesneg ond nid yn y testun Cymraeg. Mae’r testun Cymraeg yn datgan bod yr holl fwyd yn y swp, lot neu lwyth yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau. [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)].

Gellir cywiro'r anghysondeb a'r gwall drafftio bach hwn drwy Femorandwm Cywiriadau.

**Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**1 Tachwedd 2005**